**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Rob Thomas,
Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg

25 Medi 2023

**Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a’r Fro**

Annwyl Mr Thomas,

Gwyddoch ein bod wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn edrych ar brofiadau plant a phobl ifanc yn y system ofal. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ynghylch sut y dylid diwygio'r system ofal yn radical. Gwelwch o’n hadroddiad y gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gyflwyno model FDAC cyson ledled Cymru, yn amodol ar werthusiad llwyddiannus o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg. (Argymhelliad 9). Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru a ddywedodd y byddai’n adolygu'r gwerthusiad o'r cynllun peilot cyn ystyried modelau cyflawni cynaliadwy ar gyfer cyflwyno cynllun o’r fath yn genedlaethol.

Gwnaethom gynnal sesiwn graffu arall ar 14 Medi gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod pob agwedd ar ymateb Llywodraeth Cymru ymhellach. Fel rhan o'r sesiwn hon, gwnaethom ofyn am sicrwydd gan y Dirprwy Weinidog nad oedd y cyllid ar gyfer y cynllun peilot yn rhan o waith ehangach Llywodraeth Cymru i ganfod arbedion yn ystod y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru. Roeddem yn falch o glywed cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun peilot yn ddiogel.

Wedi hynny, rydym wedi cael gwybod bod Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a’r Fro wedi’i derfynu. Mae hyn, wrth gwrs, yn peri pryder mawr i'r Pwyllgor. Ein pryder yw y bydd y cynllun peilot ei hun yn dod i ben yn gynnar ac na fydd yr FDAC yn parhau yn y tymor hir, gydag

ansicrwydd ynghylch yr achosion gweithredol presennol a’r hyn y mae hyn yn ei olygu i'r plant hynny a'u teuluoedd.

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl ynghylch yr hyn y mae eich awdurdod lleol yn ei wneud i sicrhau dyfodol yr FDAC yn y tymor byr a’r tymor hir.

Oherwydd amseroldeb y mater hwn, byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor Caerdydd.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, e-bostiwch Naomi Stocks, Clerc y Pwyllgor, ar seneddplant@senedd.cymru neu ffoniwch 0300 200 6222.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.